



**Teitl:
Ifanc)** **Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd yn Gyntaf - (Gofalwyr Di-dâl - Oedolion**

Lleoliad: **Gweithio Ystwyth / Canolfan Gwasanaeth Plant Integredig Blaenau**

Cyfarwyddiaeth: **Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion (wedi'u lleoli o fewn Teuluoedd yn Gyntaf)**

Cyflog: **Gradd 6 (£32,115 - £36,124 y flwyddyn pro rata)**

Oriau: **22.12 yr wythnos (dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener)**

Contract: **Cyfnod Penodol tan 31 Mawrth 2027**

Crynodeb Swydd

Fel Gweithiwr Cymorth Oedolion Ifanc sy'n Gofalu (16-25), byddwch yn darparu cymorth hanfodol i oedolion ifanc sy'n gyfrifol am ofalu am aelodau o'r teulu neu anwyliaid. Bydd eich rôl yn cynnwys cynnig cefnogaeth emosiynol, cymorth ymarferol, ac arweiniad i oedolion ifanc sy'n gofalu i gydbwysu eu cyfrifoldebau gofalu gyda'u datblygiad personol a'u lles.

Hysbyseb Lawn

Rydym yn awyddus i recriwtio gweithiwr proffesiynol arloesol, angerddol, deinamig a medrus i gefnogi oedolion ifanc sy'n gofalu. Bydd disgwyl i chi nodi bylchau a datblygu cefnogaeth a gwasanaethau.

Byddwch yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc, bod yn hyblyg yn eich oriau gwaith i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd a chyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r radd a'r rôl.

Byddwch yn cynnig clust i wrando a chefnogaeth emosiynol i oedolion ifanc sy'n gofalu, gan eu helpu i ymdopi â heriau eu rôl ofalu.

Helpu pobl i fanteisio ar adnoddau, gwasanaethau a buddion a all leddfu'r baich o roi gofal.

Eirioli ar ran oedolion ifanc sy'n gofalu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cydnabod a'u diwallu gan sefydliadau perthnasol.

Trefnu a hwyluso cyfleoedd hyfforddi i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i oedolion ifanc sy'n gofalu reoli eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Adeiladu a chynnal perthnasoedd â sefydliadau cymunedol lleol, darparwyr gofal iechyd, a sefydliadau addysgol i greu rhwydwaith cefnogol ar gyfer oedolion ifanc sy'n gofalu.

Ochr yn ochr â'ch rheolwr llinell, asesu cynnydd a lles oedolion ifanc sy'n gofalu yn rheolaidd, gan ddarparu adborth ac addasu cynlluniau cymorth yn ôl yr angen.

Mae'r rôl yn gofyn am gymhwyster proffesiynol perthnasol ar Lefel 3 neu uwch mewn Gofal Cymdeithasol, a Lefel 1 a 2 mewn Diogelu ynghyd â phrofiad amlwg o weithio gyda phlant ac oedolion mewn lleoliad cymunedol.

Mae profiad o weithio gydag asiantaethau eraill, cynnal asesiadau, mynychu cyfarfodydd, cefnogi pobl i bontio o fod yn ofalwyr ifanc i oedolion sy'n gofalu a darparu ymyriadau, gyda dealltwriaeth dda a gwybodaeth weithredol gadarn o ddeddfwriaeth, canllawiau a safonau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymorth i blant ac oedolion yn hanfodol.

Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Cynhelir prosesau sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg.

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.

Dyddiad Cau 6 Mawrth 2025

Dyddiad Cyfweliad 17 Mawrth 2025